

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

Enw'r Lleoliad: Ysbyty Annibynnol  
Rushcliffe (Aberafan)

Dyddiad y gweithgarwch: 27 Tachwedd 2020

Dyddiad cyhoeddi: 29 Rhagfyr 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Cofnod o'r Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ysbyty Annibynnol Rushcliffe (Aberafan) fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Ysbyty Annibynnol Rushcliffe (Aberafan) yn darparu gofal, triniaeth a gwasanaeth adsefydlu strwythuredig ar gyfer hyd at 18 o gleifion, y mae rhai ohonynt yn unigolion a allai gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r Rheolwyr Cofrestredig ar 27 Tachwedd 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed i'r amgylchedd ffisegol, trefniadau ar y ward a gallu'r cleifion i fanteisio ar gyfnodau o absenoldeb o ganlyniad i COVID-19?
- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?
- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen?

---

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol ac arwahanu. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau yr oeddent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod yr ysbyty wedi delio â nifer o asiantaethau yn ystod y pandemig, yn cynnwys AGIC, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn cadarnhau'r newidiadau yr oedd angen eu rhoi ar waith. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd rheolaidd lle cafodd canllawiau a newidiadau COVID-19 eu trafod a'u rhannu â'r staff a'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod archwiliadau amgylcheddol rheolaidd yn cael eu cynnal, a gwelsom dystiolaeth o un o'r archwiliadau hyn. Hefyd, cynyddwyd nifer y staff cadw tŷ er mwyn sicrhau bod tasgau glanhau ychwanegol yn cael eu cyflawni.

Dywedodd rheolwyr yr ysbyty wrthym fod yn rhaid i bawb a oedd yn ymweld â'r lleoliad, boed yn ymwelwyr neu'n weithwyr proffesiynol, roi gwybod i'r ysbyty eu bod yn bwriadu ymweld ymlaen llaw a'u bod yn cael eu sgrinio am symptomau COVID-19 dros y ffôn yn y lle cyntaf. Yna, roedd gwiriadau i archwilio iechyd corfforol yn cael eu cynnal pan oeddent yn cyrraedd yr ysbyty. Disgrifiwyd nifer o newidiadau ffisegol i'r ward hefyd.

Cawsom wybod am y newidiadau a wnaed i'r trefniadau ar y ward, a oedd yn cynnwys gofyniad i bob aelod o staff nad ydynt yn hanfodol gysylltu â'r ysbyty drwy ddulliau electronig. Roedd y staff yr ystyriwyd eu bod yn agored i niwed yn dilyn asesiad risg yn gweithio o gartref lle y bo'n gymwys. Mae'r cleifion a'r staff yn bwyta ar adegau gwahanol bellach, er mwyn lleihau'r nifer sy'n bresennol a sicrhau y cedwir pellter cymdeithasol. Roedd yr ardaloedd bwyta hefyd yn cael eu glanhau rhwng yr amseroedd bwyta amrywiol. Roedd y staff hefyd yn gweini bwyd i'r cleifion, lle roedd y cleifion yn arfer gweini eu hunain. Roedd cyfarfodydd trosglwyddo'r ward bellach yn cael eu cynnal yn yr ystafell gynadleddau er mwyn sicrhau y gall y staff gadw pellter cymdeithasol gan agor y ffenestri, er mwyn gwella'r awyru.

Yn ogystal â'r cyfarfodydd misol â'r cleifion, dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd ychwanegol bellach yn cael eu cynnal, a elwir yn gyfarfodydd brys. Roedd y rhain yn cael eu cynnal bob tro y gwnaed newidiadau i ganllawiau'r llywodraeth. Roedd cynrychiolwyr cleifion yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn a oedd yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r cleifion. Rhoddwyd gwybod i'r gofalwyr am y newidiadau hefyd. Roedd cyfarfodydd dyddiol hefyd yn cael eu

---

cynnal ynghylch iechyd y cleifion ac roedd unrhyw newidiadau i ofal y cleifion yn cael eu trafod â'r cleifion.

Disgrifiwyd bod y cymorth a gafwyd yn “aruthrol”. Roedd y staff yn ymwybodol iawn o effeithiau COVID-19 ac roedd y cleifion yn cael cymorth ychwanegol. Roedd hyn yn cynnwys dod ag adnoddau iddyn nhw, fel cyfarpar campfa, lle roeddent yn arfer ymweld â'r gampfa leol. Defnyddiwyd dulliau electronig yn lle cynnal ymweliadau cartref lle nad oedd y rhain yn cael eu caniatáu. Roedd pob proses yn cael ei chyfleu i'r cleifion ac nid oedd newidiadau'n cael eu gwneud heb roi gwybod i'r cleifion yn gyntaf. Dywedwyd wrthym, er y gwelwyd cynnydd yn lefelau'r pryder ymysg cleifion, na ddefnyddiwyd unrhyw ddulliau atal yn gorfforol. Dywedwyd wrthym fod ysbryd rhai cleifion yn isel, yn hytrach na'u bod yn ymosodol.

Cyn y cyfnodau cyfyngiadau symud, dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal â'r cleifion i drafod eu pryderon ynghylch gallu cysylltu â'u perthynas agosaf a'u gofalwr. Roedd y rheolwyr cofrestredig hefyd yn cysylltu â'r holl berthnasau i drafod y mater hwn â nhw. Pan oedd y canllawiau'n caniatáu hynny, cynhaliwyd ymweliadau ar dir yr ysbyty neu yn y gymuned leol. Cynhaliwyd asesiadau risg mewn perthynas â'r ymweliadau hyn ac roedd staff yr ysbyty yn mynd gyda'r cleifion. Roedd gan bob claf ffôn symudol, i gadw mewn cysylltiad â'u perthnasau. Hefyd, gallai'r cleifion ddefnyddio'r cyfleusterau a ddarparwyd gan yr ysbyty i gysylltu â'u perthnasau ar-lein. Roedd pob asesiad risg mewn perthynas ag ymweliad hefyd yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd tîm aml-ddisgyblaethol, yn unol â chanllawiau'r llywodraeth. Roedd yr asesiadau risg hyn yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion, gan ystyried eu hanghenion o ran adsefydlu ac iechyd corfforol a meddyliol.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cawsom dystiolaeth o asesiadau risg amgylcheddol a gwblhawyd ar gyfer chwe ardal yn yr ysbyty. Roedd y risgiau hyn wedi'u grwpio gyda'i gilydd ar un ochr o'r ffurflen a'r holl gamau lliniaru ar yr ochr arall. Nid oeddent wedi'u cysylltu o'r risg unigol i'r cam lliniaru. Ni chawsom asesiadau risg amgylcheddol ar gyfer pob ardal yn yr ysbyty, yn cynnwys y gerddi, ystafelloedd y staff, yr ystafell gynadledda a'r storfeydd.

Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig gwblhau asesiad risg amgylcheddol llawn ar gyfer pob ardal yn yr ysbyty, gan sicrhau bod cynllun gweithredu'n cael ei gwblhau yn ôl yr angen. Dylid sicrhau bod yr asesiad yn cael ei ddiweddarau a'i adolygu'n fisol.

Nid oedd asesiad risg gwrthglymu ar waith yn yr ysbyty i nodi'r canlynol:

- holl risgiau gwrthglymu ym mhob rhan o'r ysbyty yn cynnwys y tir,
- y dulliau lliniaru a'r rheolaethau sydd ar waith i reoli'r risgiau;

- 
- unrhyw gamau sy'n ofynnol i leihau'r risgiau ymhellach.

Nid oedd y cyfeiriad at bwyntiau clymu yn yr asesiadau risg amgylcheddol presennol yn mynd i'r afael â'r holl ofynion a ddylai fod mewn asesiadau risg amgylcheddol fel y nodir uchod.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig gwblhau asesiad risg pwyntiau clymu llawn.

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiâu rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg. Gwnaethom adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom gopi o bolisi'r ysbyty ar gyfer COVID-19 a oedd yn nodi'r gweithdrefnau i'r cleifion a'r staff leihau lledaeniad y feirws. Diben y ddogfen hon oedd cefnogi'r staff i gynnal amgylchedd diogel iddyn nhw eu hunain ac i'r grŵp cleifion yn ystod y pandemig. Darparwyd asesiad risg COVID-19, a oedd yn dogfennu'r prif risgiau ym marn y gwasanaeth a'r mesurau rheoli presennol sydd ar waith yn yr ysbyty.

Dywedwyd wrthym fod gan bob claf gynllun gofal a oedd yn cynnwys asesiad risg COVID-19. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu yng nghyfarfod wythnosol y tîm aml-ddisgyblaethol lle roedd llwybrau gofal yn cael eu cynllunio a chamau lliniaru risgiau'n cael eu rhoi ar waith.

Dywedodd y rheolwyr cofrestredig wrthym eu bod mewn cysylltiad rheolaidd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a oedd yn rhoi cyfarwyddyd ar y gweithdrefnau cywir i'w dilyn, er mwyn atal yr haint rhag lledaenu a lliniaru'r risg o groes-heintio. Hefyd, cawsom wybod bod posteri perthnasol ar atal a rheoli heintiau wedi'u lamineiddio a'u bod yn cael eu harddangos ym mhob rhan o'r ysbyty. Roedd y rhain yn atgoffa unigolion o bwysigrwydd dilyn y canllawiau sydd ar waith, er enghraifft o ran golchi dwylo a defnyddio cyfarpar diogelu personol.

Dywedodd y rheolwyr cofrestredig wrthym eu bod wedi cael trafferth cael gafael ar fasgiau wyneb yng nghamau cychwynnol y pandemig. Fodd bynnag, ar ôl cysylltu â'r bwrdd iechyd lleol, cawsant afael ar y rhain a dywedwyd wrthym fod y stociau o gyfarpar diogelu personol wedi bod yn ddigonol ers hynny. Dywedwyd wrthym fod y staff yn monitro cynhyrchion hylendid personol y cleifion er mwyn sicrhau bod ganddynt stoc ddigonol i gynnal safonau hylendid personol. Lle y bo'n bosibl, roedd y cleifion yn cael eu hannog i gael eu masgiau aml-dro personol eu hunain. Fodd bynnag, roedd y rhain hefyd yn cael eu darparu yn ôl yr angen.

---

Dim ond drwy apwyntiad yr oedd ymwelwyr yn cael eu caniatáu a dywedwyd wrthym fod rhywun yn cysylltu â nhw 24 awr ymlaen llaw er mwyn cwblhau asesiad risg COVID-19. Ar ôl cyrraedd, roedd cyfleusterau hylendid dwylo a chyfarpar diogelu personol ar gael i'r ymwelwyr, ac roedd eu tymheredd yn cael ei gymryd.

Cawsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y staff yn cael hyfforddiant penodol ar gyfer atal a rheoli COVID-19, a oedd yn cynnwys defnyddio cyfarpar diogelu personol yn gywir. Dywedwyd wrthym fod dau aelod o'r staff o'r un aelwyd wedi cael canlyniad prawf positif ar gyfer COVID-19 ond bod un ohonynt wedi bod ar wyliau blynyddol am bythefnos cyn cael y canlyniad positif. Arweiniodd hyn at gynnal profion ym mhob rhan o'r ysbyty. Dywedodd y rheolwyr cofrestredig wrthym fod unrhyw gleifion a oedd yn datblygu symptomau yn gallu hunanynysu gan fod pob ystafell yn rhai preifat unigol â chyfleusterau ystafell ymolchi en-suite. Dywedwyd wrthym na fu unrhyw achosion o gleifion yn cael canlyniad prawf positif ar gyfer COVID-19.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC y ffordd yr oedd y lleoliad yn sicrhau bod digon o staff ar gael sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, a'u bod yn gallu cysylltu â gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol eraill pan fo angen.

Hefyd, holwyd y lleoliad am y ffordd yr oedd, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Roedd y rheolwyr cofrestredig yn trafod y modd yr oedd hawliau cleifion yn cael eu diogelu. Parhawyd i gynnal adolygiadau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac i fod mewn cysylltiad â gweithwyr proffesiynol allanol, gan gynnwys cymorth eirioli, drwy delegynadledda. Roedd y cleifion yn dal i allu cysylltu â chyfreithwyr drwy alwadau ffôn a fideo.

Dywedwyd wrthym na chafwyd problem staffio ers dechrau'r pandemig. Roedd hyn am fod chwe aelod o staff wedi cael eu penodi ar gyfer uned cam-i-lawr a oedd wedi'i hatal oherwydd y pandemig. Roedd y staff wedi cael eu hadleoli yn yr ysbyty. Dywedodd y rheolwyr cofrestredig wrthym mai dim ond ar nifer cyfyngedig o adegau y bu'n rhaid iddynt ddefnyddio staff asiantaeth, oherwydd prinder staff ar fyr budd, yn ôl yr angen.

Gwelsom dystiolaeth o lefelau aciwtedd cleifion a dywedwyd wrthym eu bod wedi cael eu hasesu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod nifer y staff yn bodloni'r galw gyda dibyniaeth uwch. Dywedwyd wrthym na chafwyd problemau staffio, lle roedd angen lefelau uwch o arsylwi.

---

Dywedwyd wrthym fod gweithwyr iechyd proffesiynol perthynol wedi bod yn hyblyg wrth sicrhau cyn lleied â phosibl o newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Roedd aelodau'r tîm amlddisgyblaethol wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau fel chwarae pŵl a'u bod hefyd yn cynnal sesiynau wrth gerdded gyda'r cleifion yn yr awyr agored. Dywedwyd wrthym fod y therapydd galwedigaethol wedi parhau i ddarparu gwasanaeth drwy gydol y pandemig.

Yn ystod y pandemig, bu'n rhaid i bum aelod o staff gael eu gwarchod oherwydd COVID-19, yn cynnwys y Rheolwr Cofrestredig a oedd yn gallu gweithio o bell o'i gartref am ei bod yn bosibl iddo gyflawni ei ddyletswyddau oddi yno. Lle byddai staff ond yn gymwys i gael tâl salwch statudol fel arfer, sefydlwyd menter i dalu am absenoldeb os byddai'r staff yn datblygu symptomau COVID-19, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion hyfforddiant y staff a dywedwyd wrthym y gallai'r staff fanteisio ar hyfforddiant drwy eu cyfrifon e-bost personol gan fod hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi cael ei atal. Dywedodd y rheolwyr cofrestredig wrthym eu bod yn rhoi manylion y cymorth a oedd ar gael i'r staff ar gyfer caledi ariannol, problemau gofal plant a chymorth llesiant. Cafodd hyn ei rannu mewn cylchlythyr drwy e-bost. Dywedwyd wrthym fod y staff hefyd yn cael cymorth drwy'r system arfarnu.

Dywedwyd wrthym fod y cyfarwyddwr wedi bod mewn cysylltiad wythnosol â'r rheolwyr cofrestredig i roi cymorth a thrafod unrhyw faterion yr oedd angen eu huwchgyfeirio. Cynhaliwyd cyfarfodydd bob pythefnos hefyd â'r brif swyddfa lle roedd unrhyw faterion moesegol yn cael eu codi.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

---

## Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.



O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Annibynnol Rushcliffe

Ward: Aberafan

Dyddiad y gweithgarwch: 27 Tachwedd 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	<p>Roedd ardaloedd cyfyngedig yn cael eu cwmpasu gan yr asesiadau risg amgylcheddol yn yr ysbyty. Roedd y risgiau hefyd yn cael eu grwpio gyda'i gilydd ynghyd â'r camau lliniaru. Ni chawsom asesiadau risg amgylcheddol ar gyfer pob ardal yn yr ysbyty.</p> <p>Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig gwblhau asesiad risg</p>	<p>Safon 12 Yr amgylchedd</p> <p>Safon 22 Rheoli Risg ac lechyd a Diogelwch</p>	<p>1. Cwblhau asesiad risg amgylcheddol - i'w gwblhau bob blwyddyn</p> <p>2. Calibradu cyfarpar meddygol bob blwyddyn</p>	<p>1. Graham Godfrey (Swyddog lechyd a Diogelwch)</p> <p>2. David Kwei (Rheolwr yr Ysbyty) a Swyddog lechyd a</p>	<p>1. Cwblhawyd</p> <p>2. Cwblhawyd</p>

	amgylcheddol llawn ar gyfer pob ardal yn yr ysbyty, gan sicrhau bod cynllun gweithredu'n cael ei gwblhau yn ôl yr angen. Dylid sicrhau bod yr asesiad yn cael ei ddiweddarau a'i adolygu'n fisol.		<p>3. Archwiliadau cadw tŷ: Archwiliad golchi dillad, amgylcheddol a glanhau - i'w gwblhau bob tri mis</p> <p>4. Archwiliadau cegin: i'w cwblhau bob tri mis</p> <p>5. Archwiliad cynnal a chadw: lechyd a Diogelwch - i'w gwblhau bob mis</p>	<p>Diogelwch</p> <p>3. Vicky Williams (Pennaeth Cadw Tŷ)</p> <p>4. Nicola Jones (Pennaeth Arlwyd)</p> <p>5. Andrew Williams (Swyddog Cynnal a Chadw)</p>	<p>3. Erbyn diwedd mis Ionawr 2021</p> <p>4. Erbyn diwedd mis Ionawr 2021</p> <p>5. Erbyn diwedd bob mis</p>
2	<p>Nid oedd asesiad risg gwrthglymu ar waith yn yr ysbyty.</p> <p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig gwblhau asesiad risg pwyntiau clymu llawn. Rhaid iddo gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Nodi'r holl risgiau ym mhob rhan o'r ysbyty</li> </ul>	<p>Rheoliad 9 (Polisiâu a Gweithdrefnau)</p> <p>Rheoliad 26 (Addasrwydd Mangreoedd)</p> <p>Rheoliad 47 (Diogelwch y Cleifion a Phobl Eraill)</p>	<p>1. Cwblhau asesiad risg gwrthglymu, yn cynnwys pob risg, tebygolrwydd a chanlyniad, rheolaethau, camau lliniaru, camau pellach sy'n ofynnol a'r cyfrifoldeb a benodwyd.</p> <p>2. Cwblhau asesiad risg gwrthglymu bob 12 mis.</p>	<p>1. Rheolwr yr Ysbyty</p> <p>2. Rheolwr yr Ysbyty</p>	<p>1. Cwblhawyd</p> <p>2. Trefnwyd cyn 31 Rhag 21</p>

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y tebygolrwydd y bydd y risg yn codi a'i chanlyniad (fel sgôr)</li> <li>• Y rheolaethau neu'r camau lliniaru sydd ar waith</li> <li>• Y camau pellach sy'n ofynnol i reoli'r risg hon</li> <li>• Pwy sy'n gyfrifol am reoli pob risg.</li> </ul> <p>Yna rhaid i'r asesiad gael ei ddiweddarau'n rheolaidd gyda'r camau gweithredu'n cael eu cynnal a'u hadolygu bob blwyddyn.</p>				
--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

**Enw: Robert Tamirepi**

**Rôl: Rheolwr Cofrestredig**

**Dyddiad: 17/12/2020**

**Enw: David Kwei**

**Rôl: Rheolwr Cofrestredig**

**Dyddiad: 17/12/2020**